

Diwygio'r cwricwlwm yng Nghymru: egwyddorion addysgegol i hybu her i bawb

Wrth i ysgolion baratoi i roi Cwricwlwm i Gymru ar waith, mae'n bwysig cynnal ffocws ar yr addysgeg a fydd yn sail i'r cwricwlwm a'r asesu. Rhaid i'r addysgeg hon fod yn ddigon eang, cynhwysol a heriol i fodloni ystod eang o anghenion dysgu, gan gynnwys rhai'r dysgwyr mwyaf abl.

Mae NACE yn cefnogi ysgolion yng Nghymru i symud ymlaen wrth ddylunio a chyflwyno'r cwricwlwm yn uchelgeisiol, a hynny wedi'i lywio gan y 12 egwyddor addysgegol sydd yn yr adroddiad Dyfodol Llwyddiannus.

Mae addysgu a dysgu da yn:

- 01** Canolbwyntio'n gyson ar ddibenion cyffredinol y cwricwlwm.
- 02** Rhoi her i'r holl ddysgwyr drwy eu hannog i gydnabod pwysigrwydd ymdrechu'n barhaus i gwrdd â disgwyliadau sy'n uchel ond o fewn eu cyrraedd
- 03** Galw am ddefnyddio cymysgedd o ddulliau sy'n cynnwys addysgu uniongyrchol
- 04** Golygu defnyddio cymysgedd o ddulliau gan gynnwys y rheini sy'n hybu sgiliau datrys problemau, sgiliau creadigol a'r gallu i feddwl mewn modd beirniadol
- 05** Gosod tasgau a dewis adnoddau sy'n adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol ac yn ennyn diddordeb.
- 06** Creu cyd-destunau dilys ar gyfer dysgu.
- 07** Golygu dilyn egwyddorion asesu ar gyfer dysgu.
- 08** Ymestyn oddi mewn ac ar draws Meysydd Dysgu a Phrofiad.
- 09** Cadarnhau Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd, gan gynnwys llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, yn gyson ac yn darparu cyfleoedd i'w harfer.
- 10** Cymell plant a phobl ifanc i gymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain.
- 11** Hybu datblygiad cymdeithasol ac emosiynol a pherthnasoedd cadarnhaol.
- 12** Hybu cydweithio.

Beth yw ystyr hyn i ddysgwyr mwy abl?

Creu cyd-destunau dilys ar gyfer dysgu:

Mae pob person ifanc yn cael budd o addysgu a dysgu sy'n gwneud defnydd o gyd-destunau go iawn sy'n cymell a hefyd yn galluogi'r dysgu i gael ei gymhwyso. Ar gyfer dysgwyr mwy abl, mae gwreiddio a chymhwyso'r dysgu mewn cyd-destunau dilys yn gallu ymgysylltu â dysgwyr wrth iddynt fynd i'r afael â materion go iawn sy'n gymhleth ac sydd â pherthnasedd cymdeithasol, economaidd.

Cymell dysgwyr i gymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu:

Mae cymryd cyfrifoldeb dros eich dysgu yn arfer meddwl da i bawb. Ar gyfer dysgwyr mwy abl, nid yr athro'n unig ddylai ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros wneud cynnydd. Mae gwireddu potensial uchel hefyd yn golygu mynd y tu hwnt i gwricwla craidd yr ysgol a manteisio ar gryfderau yn annibynnol. Rhaid i athrawon wrth gwrs farnu i ba raddau y mae ar ddysgwyr unigol angen cymorth ac anogaeth wrth gymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu.

Adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol er mwyn ennyn diddordeb:

Mae arfer asesu ar gyfer dysgu da yn golygu asesu'n gynnar pa wybodaeth sydd gan ddysgwyr am faes dysgu newydd – yn ogystal â bod yn ymwybodol drwy'r amser o'u cryfderau a'u diddordebau ehangach. Efallai bydd gan ddysgwyr abl iawn wybodaeth flaenorol arwyddocaol y dylid ei hystyried wrth ystyried cynllunio a chyflwyno, fel eu bod yn gwneud cynnydd yn unol â'u galluoedd ac yn dal i ymgysylltu ac i gael eu cymell.

Dilyn egwyddorion asesu ar gyfer dysgu:

Mae angen i ddysgwyr mwy abl ddangos eu bod wedi meistrolu'r wybodaeth a'r sgiliau craidd gofynnol a bydd angen cefnogaeth mewn meysydd lle mae angen iddynt ddatblygu. Felly mae angen i athrawon wirio dealltwriaeth a chynnydd dysgwyr mwy abl yn yr un ffordd ag y maent yn ei wneud ar gyfer pob dysgwr arall. Mae angen iddynt wirio hefyd eu bod yn gwneud y cynnydd eithriadol disgwyledig mewn meysydd lle gallant ragori a pherfformio ar lefelau'r tu hwnt i'r rhai sy'n ddisgwyledig ar gyfer eu hoed a'u cyfnod. Mae hyn hefyd yn golygu rhoi canllawiau i

ddysgwyr mwy abl ynghylch camau er mwyn cyflymu eu cynnydd yn unol â'u galluoedd.

Hybu cydweithio:

I bob dysgwr, gan gynnwys y rhai mwyaf abl, rhaid cynllunio a strwythuro dysgu drwy gydweithio er mwyn cael y budd mwyaf posibl a rhaid i hyn fod yn rhan greiddiol o gam dysgu. Mewn geiriau eraill, rhaid bod diben i gydweithio a rhaid iddo fanteisio ar gryfderau gwahanol dysgwyr gwahanol. Efallai bydd rhai dysgwyr mwy abl yn osgoi gweithgareddau cydweithio os ydynt yn teimlo nad ydynt yn cael budd ohonynt neu nad ydynt yn gwneud yn fawr o'u gallu deallusol. Felly mae canlyniadau, rolau a thasgau mewn gwaith cydweithio yn bwysig i ddysgwyr mwy abl.

Defnyddio cymysgedd o ddulliau gan gynnwys rhai sy'n hybu sgiliau datrys problemau, sgiliau creadigol a'r gallu i feddwl mewn modd beirniadol:

Hon yw un o'r egwyddorion pwysicaf mewn cwricwla ac addysgu a dysgu i'r rai mwy abl. Mae meistrolu'r sylfeini yn bwysig, ond mae angen herio dysgwyr mwy abl drwy ddulliau a thasgau sy'n gofyn iddynt ddefnyddio eu gwybodaeth a sgiliau ar lefel uchel drwy, er enghraifft, fynd i'r afael â thestunau, cwestiynau, tasgau a gweithgareddau sy'n gofyn am feddwl a datrys problemau ar lefel uwch ac sy'n hybu hyn; rhesymu haniaethol; arfarnu beirniadol; cymhwyso a throsglwyddo gwybodaeth o wahanol feysydd; cyfuno syniadau cymhleth ac adrodd amdanynt mewn gwahanol fformatau a chyweiriau. Bydd hyn yn edrych yn wahanol mewn meysydd pwnc/disgyblaethau gwahanol a bydd dangos enghreifftiau yn yr asesu ar gyfer dysgu ac ar bwyntiau cynnydd arwyddocaol yn ddefnyddiol.

I gael datblygiad proffesiynol parhaus, ymgynghoriad neu gymorth mentora i'ch ysgol chi, cysylltwch â

cpd@nace.co.uk | www.nace.co.uk